



Ein cyf/Our ref

20 Ebrill 2020

Annwyl Syr neu Madam

Cymhwyso'r Rheoliadau Adeiladu yn ystod pandemig y coronafeirws (COVID-19).

Deddf Adeiladu 1984
Rheoliadau Adeiladu 2010
Rheoliadau Adeiladu (Arolygwyr Cymeradwy etc) 2010

Adeiladau gofal iechyd dros dro

Mewn ymateb i'r coronafeirws (COVID-19), mae gwaith adeiladu yn cael ei wneud ar unwaith ar draws y wlad i gefnogi brwydr Llywodraeth Cymru yn erbyn y feirws. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys creu llety gofal iechyd newydd drwy godi adeiladau dros dro a newid defnydd adeiladau eraill.

Mae'n bosibl y bydd angen adeiladu llety dros dro i ddarparu gofal a thriniaeth feddygol, neu wasanaethau ategol eraill. Mae'n bwysig bod hyn yn gallu digwydd yn gyflym heb unrhyw faich gweinyddol gormodol er mwyn codi'r adeiladau dros dro sydd eu hangen fel mater o frys a heb unrhyw oedi diangen.

Rydym yn cydnabod bod y sefyllfa bresennol yn cyflwyno heriau na welwyd eu tebyg o'r blaen o ran rheoli adeiladu. Rydym yn gwerthfawrogi'r ffordd y mae cyrff rheoli adeiladu yn ymateb ac yn diolch iddynt am hynny. Mae angen taro cydbwysedd rhwng galluogi gwaith adeiladu i barhau lle y mae hynny'n ddiogel, ar gyfer y rheini sy'n gweithio ar safle ac i

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

syrfewyr rheoli adeiladu ac arolygwyr cymeradwy i wirio cydymffurfedd, ond hefyd i sicrhau bod gwaith yn parhau i fodloni gofynion y Rheoliadau Adeiladu.

Mae Rheoliad 12 o'r Rheoliadau Adeiladu (Rhoi hysbysiad adeiladu neu adneuo planiau) yn dal i fod yn gymwys, er ein bod yn cydnabod na fydd yn bosibl i adneuo planiau cyn cyflawni'r gwaith. Os nad yw'r rheini sy'n cyflawni'r gwaith wedi gallu rhoi gwybod am y gwaith ymlaen llaw, dylai awdurdodau lleol geisio dyroddi tystysgrifau rheoleiddio cyn gynted â phosibl, gan ddefnyddio Rheoliad 18 o'r Rheoliadau Adeiladu.

Dylai cyrff rheoli adeiladu fod yn bragmatig ac yn gymesur wrth ystyried yr hyn sy'n rhesymol o ran bodloni gofynion priodol Atodlen 1 o dan yr amgylchiadau hyn. Rhaid i gyrff Rheoli Adeiladu, personau sy'n ymgymryd â'r gwaith adeiladu mewn perthynas ag adeiladau gofal iechyd dros dro a'r Gwasanaeth Tân ac Achub weithio'n agos gyda'i gilydd er mwyn dangos bod unrhyw adeiladau dros dro yn gallu cael eu gweithredu'n ddiogel.

Mae Rheoliad 11(1) o'r Rheoliadau Adeiladu yn caniatáu i awdurdodau lleol hepgor neu lacio gofynion mewn achosion arbennig. Cynghorir awdurdodau lleol i fod yn bragmatig wrth ystyried gofynion gweithdrefnol ac ni ddylent achosi unrhyw oedi diangen rhag dechrau gwaith ar adeiladau gofal iechyd dros dro. Rydym yn annog awdurdodau lleol i fod yn hyblyg os oes unrhyw ofynion o'r fath yn dod i law, ond dylid nodi na ddylai unrhyw ymgais i lacio'r gofynion gyfaddawdu ar ofynion iechyd a diogelwch hanfodol, a bod yna ffyrdd posibl eraill o gydymffurfio ag Atodlen 1 o'r Rheoliadau Adeiladu.

Os mai'r arolygwr cymeradwy yw'r corff rheoli adeiladu, dylai'r arolygwr cymeradwy a'r awdurdod lleol weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod y gwaith adeiladu yn gallu parhau, gan nodi na ddylai unrhyw ymgais i lacio neu hepgor y gofynion gyfaddawdu ar y gofynion iechyd a diogelwch hanfodol.

Canllawiau ar gyfer cyrff rheoli adeiladu ar weithredu yn ystod pandemig y coronafeirws (COVID-19) (adeiladau nad ydynt yn ymwneud â gofal iechyd)

Ar gyfer yr holl waith a wneir yn ystod y pandemig coronafeirws (COVID-19), dylai cyrff rheoli adeiladu, lle bynnag y bo modd, wirio'n rheolaidd gyda'r rheini sy'n cyflawni'r gwaith, gan gynnwys ei statws presennol ac unrhyw blaniau i barhau gyda'r gwaith.

Rydym yn cydnabod y gall fod yn anodd yn yr hinsawdd sydd ohoni i awdurdodau lleol ystyried y planiau a adneuwyd o fewn y terfynau amser statudol a bennwyd yn y Ddeddf Adeiladu. Dylai awdurdodau lleol barhau i asesu rhinweddau'r planiau hyn a sicrhau hefyd yr ymgynghorir yn brydlon gyda'r Gwasanaethau Tân ac Achub pan fod planiau yn cynnwys adeiladau sydd o fewn cwmpas y Gorchymyn Diogelwch Tân.

Yn debyg, dylai Arolygwyr Cymeradwy sicrhau bod y gofynion statudol i ymgynghori â'r awdurdodau tân ac achub a'r ymgymrwyr carthffosiaeth yn cael eu bodloni o hyd a bod amser priodol yn cael ei ganiatáu i'r awdurdod tân ac achub a'r ymgymwrwr carthffosiaeth ymateb.

Rydym yn cydnabod na fydd y cyrff rheoli adeiladu yn gallu ymgymryd â'r gweithgarwch arferol a wneir ar y safle tra bo mesurau cadw pellter cymdeithasol yn eu lle. Dylai cyrff rheoli adeiladu fod yn barod i ddefnyddio dulliau eraill o wirio cydymffurfedd, er enghraifft, defnyddio ffotograffau digidol a fideo neu gyfryngau eraill y gellir eu defnyddio o bell i wirio cydymffurfedd, gan ystyried natur y gwaith a'r lefelau risg cysylltiedig. Dylid parhau i ystyried arolygiadau ar y safle pan fo hynny'n bosibl. Gellir cynnal arolygiadau o bell ar gyfer adeiladau risg isel a gwaith y gellir ei wirio'n briodol gan ddefnyddio dulliau digidol. Gall perchnogion adeiladau ystyried meddiannu rhannau o adeilad hyd yn oed os oes gwaith ar

weddiill yr adeilad wedi dod i ben. Yn yr achosion hynny, gall cyrff rheoli adeiladu ddyroddi tystysgrif cwblhau rannol neu dystysgrif derfynol, ar yr amod bod tystiolaeth ddigonol wedi'i hanfon at y corff rheoli adeiladu.

Dylai awdurdodau lleol fod yn hyblyg wrth dderbyn estyniadau gan arolygwyr cymeradwy mewn perthynas â Rheoliad 17 o Reoliadau Adeiladu (Arolygwyr Cymeradwy etc.) 2010 pan fônt yn cael tystysgrifau terfynol rhannol neu lawn.

Dylai cyrff rheoli sicrhau bod gwybodaeth allweddol am ddiogelwch tân yn cael ei throsglwyddo i'r person cyfrifol¹ wrth ddyroddi naill ai tystysgrif derfynol/rhannol derfynol neu dystysgrif gwblhau, yn unol â Rheoliad 38 o'r Rheoliadau Adeiladu.

Dylai cyrff rheoli adeiladu hefyd gymryd y camau angenrheidiol i fonitro pa adeiladau sydd wedi'u meddiannu sydd â thystysgrif rannol, derfynol neu dystysgrif gwblhau ac i gysylltu yn nes ymlaen â pherchennog yr adeilad i gael y dystysgrif derfynol neu dystysgrif gwblhau.

Gwybodaeth bellach

I weld yr wybodaeth ddiweddaraf ar gyfer busnesau sy'n gweithredu yn ystod pandemig y coronafeirws (COVID-19), edrychwch ar wefan Llywodraeth Cymru:

<https://llyw.cymru/canllawiau-ar-covid-19-i-gyflogwyr-busnesau>

Ymholiadau

Bydd y canllawiau hyn ar gyfer cyrff rheoli adeiladu yn cael eu hadolygu'n gyson.

Dylid cyfeirio ymholiadau dros y ffôn ynghylch y Llythyr hwn at Reoliadau Adeiladu ar 03000 628144 a'r holl ymholiadau e-bost i enquiries.brconstruction@Gov.Wales

Yn gywir,



Francois Samuel
Pennaeth Polisi Rheoliadau Adeiladu

¹ Erthygl 3 o Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005